

## WILLIAMS, ABRAHAM ('Bardd Du Eryri'; 1755 - 1828)

**Enw:** Abraham Williams  
**Ffugenw:** Bardd Du Eryri  
**Dyddiad geni:** 1755  
**Dyddiad marw:** 1828  
**Plentyn:** Catrin Williams  
**Rhiant:** Thomas Williams  
**Rhyw:** Gwryw  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** Griffith Thomas Roberts

Ganwyd yn Cwmglas Mawr, Llanberis. Rhoes ei dad, Thomas Williams, ef yn ysgol [John Morgan](#), curad Llanberis, am gyfnod; yr oedd '[Dafydd Ddu Eryri](#)' yno yr un pryd. Bu dau gurad arall cyn hynny yn Llanberis yn ieuentid Abraham Williams, sef [Dafydd Ellis](#) ('Person Criceth' wedi hynny), a fu yno o 1764 i 1767, ac [Evan Evans](#) ('Ieuan Brydydd Hir'), a fu yno am ran o'r flwyddyn 1771. Trwyddynt hwy y daeth Abraham i gymryd diddordeb mewn barddoniaeth Gymraeg. Yr oedd ganddo gopi o *Ramadeg Siôn Rhydderch*, a rhoddai ei fenthyg i'r bechgyn eraill oedd yn yr ysgol. Symudodd i weithio i chwarel y Penrhyn, a bu [Gutyn Peris](#) (Griffith Williams) yn lletya yn ei dŷ yng Ngwaun-y-gwail, Llanllechid. Yn ystod y cyfnod hwn bu rhyw gweryll rhwng y ddau gyfaill a cheir '[Gutyn](#)' yn anfon 'Cywydd y Cymod' ato yn 1791, lle y cydnebydd iddo dderbyn hyfforddiant ganddo yn y llinell 'Dygaist im ramadegau.' Mewn cywydd arall at '[Gwilym Peris](#)' dywaid [Gutyn](#) mai Abraham Williams oedd eu hathro ill dau.

Yn 1793 hwyliodd y 'Bardd Du' i America gan lanio yn Philadelphia, ond symudodd yn fuan i New York lle bu ei wraig farw o'r clefyd melyn. Priododd eilwaith a symudodd i Essex County, New Jersey, yn 1797, a dywaid Rowland fab Owen, a fu'n chwilio am hanes y bardd yn yr America, ar sail yr hyn a glywodd gan ei ferch, Catrin, iddo sefydlu yn Dorence, Luzerne County, Pennsylvania, yn 1798, lle prynodd dir a gosod melin i lifio coed ar yr afon, a gwneuthur cadeiriau i'w gwerthu. Dangosodd Catrin gadair o waith ei thad iddo; dellt hickory oedd ei gwaelod, a dywedodd iddi waelodi cannoedd o gadeiriau pan oedd yn llances. Credai Rowland fab Owen fod tuedd yn Abraham Williams at y Bedyddwyr pan oedd yng Nghymru ond iddo ymuno â'r Wesleaid yn America. Yn 1816 symudodd drachefn i Grist Flatts, lle ar ochr orllewinol i'r afon Susquehanna, a gwnaeth weithdy yn y fan honno fel cynt. Yn 1828 aeth i gyfarfod ynglŷn ag etholiad Andrew Jackson, y gŵr a ddewiswyd wedyn (1829) yn arlywydd yr Unol Daleithiau, ond bu'r daith yn ormod iddo, a bu farw yn fuan wedyn. Claddwyd ef mewn mynwent yn agos i'w dŷ, ac ar garreg ei fedd torrwyd: 'Abraham Williams, Died Dec. 27 1828, Aged 73 yrs. 3 m. 9 dys.' Daethai chwedl ddi-sail i Gymru iddo farw cyn 1816 a chanodd '[Gutyn Peris](#)' awdl-farwnad iddo (*Ffrwyth Awen*, 60). Cafodd Abraham Williams felly ddarllen ei farwnad ei hunan, ac yn 'Cywydd yr Adfail,' a anfonodd i Gymru o'r 'goedwig dywyll ar lan afon fawr Susquehana, neu afon hir a cham, Mai 30, 1819,' cawn gyfeiriad at y farwnad annhymig a darlun da o'r bardd yn tynnu ar derfyn y daith wedi ei grwydro pell.

### Awdur

Griffith Thomas Roberts

### Ffynonellau

Llythyrau Rowland fab Owen, 1866-70

*Hynafiaethau a Thraddodiadau Plwyf Llanberis a'r Amgylchoedd* (1892), 84-8

*Hanes Methodistiaeth Arfon*, iv, 29

N.L.W. *Llawysgrif Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 72

*Y Brython*, iii, 154

*Y Cymmrodor*, 1938, 134

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361501](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

